# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1958(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Lisa Francis:**

Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, addewais ysgrifennu atoch ynghylch y cynnydd a gafwyd parthed y cynigion i gyflwyno teithio consesiynau ar y rheilffyrdd.

Un o welliannau mwyaf arwyddocaol Llywodraeth y Cynulliad i ffordd o fyw a lles pobl Cymru yw cyflwyno cynllun statudol tocynnau mantais bws. Mae'n gadael i'r sawl sydd dros 60 oed neu sy'n gymwys ar sail anabledd deithio am ddim ar wasanaethau bysys yn lleol drwy Gymru a'r cyffiniau. Yn achos y rhai hynny sy'n gymwys ar sail anabledd, caniateir i rywun yng nghwmni'r person hwnnw hefyd deithio am ddim. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gyda thros 530,000 o docynnau mantais yn cael eu rhoi ers cyflwyno'r cynllun.

Ar y cyd â'r cynllun bysys statudol, gall awdurdodau lleol gynnig rhyw fath ar gonsesiynau ar y rheilffordd yn ddewis arall os bydd gwneud felly yn ateb anghenion y bobl leol. Mewn rhai mannau, er enghraifft, mae'r cwmnïau gweithredol, megis Trenau Arriva Cymru, yn cynnig cerdyn rheilffordd i bobl hŷn sy'n rhoi teithio ar ddisgownt.

Ers amser hir, yr ydym wedi cydnabod yr angen i ymestyn argaeledd prisiau consesiwn o dan yr amgylchiadau iawn. Er hynny, ni fu'n fwriad gennym erioed ymestyn y cynllun i ddarparu teithio cyffredinol am ddim ar draws Cymru ar y rheilffyrdd i'r bobl hynny sy'n gymwys i gael tocynnau bws am ddim. Yn wir, y mae'r drafft o'n strategaeth drafnidiaeth i Gymru, 'Cysylltu Cymru', yn cynnwys ymrwymiad i ystyried sut y gellir ymestyn teithio consesiynol i'r bobl hynny nad yw'r rhwydwaith bysys ar gael iddynt. Mae gwaith TAITH a Trac wedi helpu goleuo ein meddwl ynghylch y modd y gellir mynd â'r mater hwn rhagddo.

Mae astudiaethau TAITH a Trac yn dangos y gall y rheilffordd fod, mewn rhai ardaloedd gwledig, yn fodd mwy ymarferol ac effeithiol o deithio'n lleol na'r gwasanaethau bysys masnachol. Maent, felly, wedi cynnig cynllun peilot ar rai o'r leiniau gwledig, ac mae Trenau Arriva Cymru wedi chwarae rhan ragweithiol yn y trafodaethau.

Gyfochr â hyn, mae'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau a'i swyddogion wedi bod yn trafod â thîm rheilffyrdd cymunedol yr Adran Drafnidiaeth, y consortia, Network Rail, Trenau Arriva Cymru a phartneriaethau rheilffyrdd cymunedol—yn gychwynnol, fforwm lein Calon Cymru a Phartneriaeth Rheilffordd Dyffryn Conwy—y potensial o ddefnyddio dynodiadau rheilffyrdd cymunedol yng Nghymru.

Mae dynodi rheilffyrdd cymunedol yn fenter ar draws Cymru a Lloegr, dan arweiniad tîm rheilffyrdd cymunedol yr Adran Drafnidiaeth. Mae'r fenter hon yn deillio o'r strategaeth ddatblygu rheilffyrdd cymunedol a lansiwyd gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol gynt ym mis Tachwedd 2004.

Yr ydym yn cefnogi'n llawn yr egwyddorion y tu ôl i ddynodiad rheilffordd gymunedol. Nod dynodiad rheilffordd gymunedol yw gwella refeniw net drwy godi'r defnydd a wneir o'r rheilffyrdd ac/neu godi'r incwm o'r tocynnau. Gall hefyd ostwng costau a chodi cyfranogi gan y gymuned. Felly, dylai dynodiad gael ei arwain gan ddeiliaid ac ni ddylai fod dynodiad oni bai fod y gymuned o amgylch y rheilffordd dan sylw yn gefnogol ac yn cymryd rhan. Dylai cynllun clir hefyd fod yn ei le i gyflawni'r buddiannau a'r gwelliannau y gall dynodiad rheilffordd gymunedol ddod â hwy.

Un o brif fuddiannau dynodi gwasanaeth yn rheilffordd gymunedol yw'r llacio ar y gofyniadau llym parthed rheoleiddiad a masnachfraint a all gael eu gweithredu yn achos gwasanaethau prif lein. Gallai hyn ganiatáu cyflwyno amserlenni mwy ymatebol, prisiau hyblyg a gofyniadau contract symlach.

Mae cynlluniau rheilffyrdd cymunedol wedi'u sefydlu yn Lloegr ers 2004. Deallaf fod hyn wedi gweld, mewn rhai ardaloedd gwledig, gyflwyno strwythur prisiau mwy hyblyg. Gosododd y strwythur brisiau gwahanol i ymwelwyr a phobl leol sy'n defnyddio'r lein am deithiau lleol gyda cherdyn teithio.

Bydd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau cyn hir yn cyhoeddi cyfarwyddyd ar y cyd â'r Adran Drafnidiaeth ynghylch dynodi rheilffyrdd cymunedol yng Nghymru. Er hynny, bydd i gymunedau lleol gyflwyno cynigion am ddynodiadau a rhaglen ddilynol am welliannau. Gall y gwelliannau gynnwys trefniadau ar gyfer darparu teithio am ddim ar y rheilffyrdd i ddeiliaid tocyn teithio am ddim ar y bysys yn rhan o strwythur prisiau mwy hyblyg. Bydd y cyfarwyddyd yn cynnwys ymrwymiad i ymgynghori ag Aelodau Cynulliad lleol ynghylch cynigion penodol am ddynodiad. Yn y dechrau, bwriedir cynnal cynlluniau peilot am y cynigion am ddynodi rheilffordd gymunedol ar ddarnau gwledig lein Calon Cymru a lein Dyffryn Conwy. Os bydd y partneriaethau rheilffyrdd cymunedol yn cytuno, ac os bydd canlyniad cadarnhaol o'r ymgynghoriad, gall dynodi'r ddwy lein hon ddechrau digwydd yn gynnar yn 2007. Os bydd y cynlluniau peilot yn llwyddo, byddwn yn edrych i'w hymestyn i reilffyrdd arfordir Cambria, y Gororau (Wrecsam-Bidston) ac Amwythig-Caer.

Credaf fod dynodi rheilffyrdd cymunedol yn rhoi'r potensial i gyflwyno buddiannau arwyddocaol i bobl y Gymru wledig. Gobeithio yr eir â'r cyfleoedd hyn yn eu blaen gan y cymunedau lleol yn yr ardaloedd hyn.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1958(FM) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog**

**At Janet Davies:**

Mae Rhodri Morgan wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch am y cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun consesiwn hanner pris ar gyfer teithwyr bysiau 16-18 mlwydd oed.

Yr wyf wedi ailymgynnull y grŵp llywio ar gonsesiynau teithio er mwyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o weithredu unrhyw gynllun ar gyfer teithwyr 16-18 mlwydd oed. Bydd y fath gynllun yn cael ei seilio ar argymhelliad y gweithgor ar gonsesiynau teithio a fydd yn ystyried canfyddiadau'r astudiaeth i werthuso'r cynlluniau peilot. Mae'n bleser gennyf ddweud yr estynnwyd aelodaeth y gweithgor ar gonsesiynau teithio i gynnwys cynrychiolydd o blith pobl ifanc.

Yr wyf yn disgwyl derbyn adroddiad o ganlyniadau'r astudiaeth gwerthuso yn Ebrill 2008. Ni ellir gwneud unrhyw benderfyniadau cyn derbyn yr adroddiad hwnnw.